

*A ydw i'n
gymwys?*

*Pa dystiolaeth
mae ei hangen
arnaf?*

*Mae angen help
arna i gyda'r
ffurflen gais*

*Sut mae
ymgeisio?*

*Pryd dylwn i
wneud cais?*

Y Cynnig Gofal Plant ym Mro Morgannwg



Cynnwys

Rhif tudalen

3. [Beth yw'r Cynnig Gofal Plant?](#)
4. [Ydw i'n Gymwys i Dderbyn y Cynnig Gofal Plant?](#)
5. [Pa dystiolaeth sydd ei hangen arnaf os ydw i'n gyflogedig?](#)
6. [Pa dystiolaeth sydd ei hangen arnaf os ydw i'n hunangyflogedig?](#)
7. [Eithriadau](#)
8. [Pa dystiolaeth arall sydd ei hangen arnaf?](#)
9. [Ble mae gwneud cais?](#)
10. [Manylion y Plentyn](#)
11. [Dewisiadau Gofal Plant](#)
12. [Dewisiadau Gofal Plant \(parhad\)](#)
13. [Darparwr Gofal Plant](#)

Rhif tudalen

14. [Faint o ddarparwyr gofal plant y gallaf eu defnyddio?](#)
15. [Manylion y Rhiant/Gwarcheidwad – Rhiant 1](#)
16. [Manylion y Rhiant/Gwarcheidwad – Rhiant 2](#)
17. [Dogfennau Ategol](#)
18. [Nodiadau Cyn Ymgeisio](#)
19. [Cwestiynau Cyffredin 1: Gwyliau Ysgol](#)
20. [Cwestiynau Cyffredin: 2](#)
21. [Cwestiynau Cyffredin: 3](#)
22. [Cwestiynau Cyffredin: 4](#)
23. [Cwestiynau Cyffredin: 5](#)
24. [Unrhyw gwestiynau?](#)

Beth yw'r Cynnig Gofal Plant?

- Yn ystod y tymor, mae'r Cynnig Gofal Plant yn cynnwys 17.5 awr o gyllid gofal plant a 12.5 awr o ddsbarth meithrin (ysgol) y Cyfnod Sylfaen:



- Yn ystod gwyliau'r ysgol, bydd cyllid y Cynnig Gofal Plant yn cynyddu i hyd at 30 awr yr wythnos, am 9 wythnos y flwyddyn. Gallwch ddefnyddio gwerth tair wythnos y tymor o gyllid gofal plant yn ystod y gwyliau. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar [dudalen 19](#)
- Mae'r Cynnig Gofal Plant yn rhedeg o'r tymor ar ôl 3^{ydd} pen-blwydd y plentyn nes iddo fynd i'r ysgol yn amser llawn. Fel arfer, mae hyn yn digwydd yn y mis Medi ar ôl 4^{ydd} pen-blwydd y plentyn. I gael yr union ddyddiadau cymhwysedd, ewch i: [Cynnig Gofal Plant](#)

Ydw i'n Gymwys i Dderbyn y Cynnig Gofal Plant?

- ✓ Rhaid eich bod chi a'ch plentyn yn byw yng Nghymru
- ✓ Rhaid eich bod yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig
- ✓ Rhaid eich bod yn ennill o leiaf:
 - £139.52 yr wythnos os ydych yn 25 oed neu'n hŷn
 - £131.20 yr wythnos os ydych yn 20-24 oed neu'n hŷn

(Mae'r cyfraddau'n seiliedig ar 16 awr yr wythnos ar lefel y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2020-Mawrth 2021 a byddant yn newid yn flynyddol)

- ✓ Rhaid eich bod yn ennill llai na £100,000 (incwm gros) y flwyddyn, fesul riant.

Mae'r meini prawf cymhwysedd uchod yn berthnasol i'r ddau riant mewn teulu dau riant, neu'r unig riant mewn teulu un riant

Pa dystiolaeth sydd ei hangen arnaf os ydw i'n gyflogedig?

✓ **Os ydych yn gyflogedig:**

bydd angen cyflwyno tri mis o slipiau talu

✓ **Os nad oes gennych dri mis o slipiau cyflog oherwydd eich bod ar fin dechrau swydd newydd:**

bydd angen llythyr neu gontract cynnig swydd arnoch, sy'n nodi eich cyflog neu gyfradd eich cyflog a'ch oriau, a'r dyddiad y mae eich swydd yn dechrau

✓ **Os ydych yn gyflogedig ond ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/salwch:**

bydd angen llythyr arnoch gan eich cyflogwr i gadarnhau hyn. Yn ogystal bydd angen i'r llythyr nodi eich cyflog a'ch oriau arferol

Pa dystiolaeth sydd ei hangen arnaf os ydw i'n hunangyflogedig?

✓ Os ydych yn hunangyflogedig ers dros 12 mis:

bydd angen i chi gyflwyno eich ffurflen Hunanasesu ddiweddaraf, gan gynnwys eich Cyfeirnod Treth Unigryw

✓ Os ydych yn hunangyflogedig ers dros 12 mis:

- bydd angen i chi rhoi tystiolaeth o'ch Cyfeirnod Treth Unigryw a'r dyddiad cofrestru

Eithriadau

- ✓ Gall rhieni mewn teulu dau riant fod yn gymwys os yw un riant mewn cyflogaeth/yn hunangyflogedig, ac yn bodloni'r meini prawf enillion gofynnol, ac mae'r riant arall yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:
 - Budd-dal analluogrwydd
 - Lwfans Gofalwyr
 - Lwfans Anabledd Difrifol
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
 - Credydau yswiriant gwladol ar sail analluogrwydd gweithio neu allu gweithio cyfyngedig
- ✓ Rhieni mewn teulu dau riant lle mae un riant yn gyflogedig/hunangyflogedig, ac yn bodloni'r meini prawf enillion gofynnol, ac mae'r riant arall yn derbyn taliadau gan y Lluoedd Arfog a wneir i gyn-filwyr a anafwyd yn ddifrifol, e.e. Taliad Incwm Gwarantedig

Bydd angen i chi gyflwyno datganiad/llythyr budd-daliadau diweddar fel tystiolaeth

Pa dystiolaeth arall sydd ei hangen arnaf?

✓ Eich datganiad Treth Gyngor diweddaraf

- Gallwch ofyn am ddatganiad newydd: 01446 709564
CouncilTax@valeofglamorgan.gov.uk
- Neu cofrestrwch gyda'r [Porth eCitizen](#)

A

✓ Thystiolaeth o gyfrifoldeb rhiant:

Tystysgrif geni ffurf hir (gydag enwau'r rhieni)

NEU

Os mai'r dystysgrif geni ffurf fer sydd gennych (heb enwau'r rhieni), bydd arnoch **hefyd** angen math arall o dystiolaeth, e.e. llythyr budd-dal plant/llythyr gan Derbyniadau Meithrin

NEU

Dystiolaeth arall o gyfrifoldeb rhiant e.e. Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig

Ble mae gwneud cais?

Defnyddiwch y ddolen i'r cais Cynnig Gofal Plant ar [wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Bro Morgannwg](#)

Mae tudalen mewngofnodi'r ffurflen gais yn edrych fel hyn:

Ymgeisydd Newydd	Ymgeisydd Presennol
Mae angen cyfeiriad e-bost dilys i greu cais	
E-bost: <input type="text"/>	E-bost: <input type="text"/>
<input type="button" value="Cychwyn"/>	Cyfrinair: <input type="text"/>
	<input type="button" value="Mewngofnodi"/>
	Anghofio cyfrinair

Cofiwch eich cyfrinair

Peidiwch â cheisio gwneud cais drwy wefan GOV.UK – ar gyfer Lloegr yn unig mae hon

Manylion y Plentyn

Legal Forename(s):*

e.g. James

Legal Surname:*

e.g. Williams

Known As:

e.g. James Jones

Date of Birth:*

03/11/2017

Gender:*

Male

Female

Birth Certificate Number:*

e.g. ABCD123456

Postcode:*

e.g. NP206AD

Mae cyllid y Cynnig Gofal Plant yn dechrau o'r tymor ar ôl 3^{ydd} pen-blwydd y plentyn. Derbynnir ceisiadau tuag 8 wythnos cyn i'r cyllid ddechrau. Gwnewch yn siŵr bod y ceisiadau yn cael eu derbyn ar gyfer grŵp oedran eich plentyn cyn i chi ddechrau:

[Cynnig Gofal Plant Bro Morgannwg](#)

Os nad ydych yn byw ym Mro Morgannwg, rhaid i chi wneud cais am y Cynnig Gofal Plant drwy wefan eich Awdurdod Lleol eich hun.

Dewisiadau Gofal Plant

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â lle eich plentyn mewn ysgol feithrin.

Oes bwriad gennych chi anfon eich plentyn i ddarpariaeth 'meithrinfa cyfnod sylfaen', sydd â'r enw 'hawl blynyddoedd cynnar' neu ydych chi eiddoedd yn mynychu un ar hyn o bryd? Cwricwlwm datblygiadol i blant tri i saith oed yng Nghymru yw'r Cyfnod Sylfaen. (Mae'n hysbysu bod eich plentyn yn manteisio ar ddarpariaeth meithrinfa cyfnod sylfaen trwy eich ysgol leol, eich Cylch Meithrin, eich Grŵp Gwarchwarae neu'ch Meithrinfa).

Am sawl awr yr wythnos ar y Cyfnod Sylfaen mae eich plentyn (gadewch yn wag os mai dim un yw'r ateb):

Mae'r plant yn cael 12.5 awr yr wythnos mewn ysgol feithrin y Cyfnod Sylfaen ym Mro Morgannwg

Am sawl awr yr wythnos yr ydych chi bwriadu i'ch plentyn fod ar y Cyfnod Sylfaen (gadewch yn wag os mai dim un yw'r ateb):

Yn lle ydych chi'n bwriadu i'ch plentyn gael mynediad at y cyfnod sylfaen?:

N/A

Nid oes bwriad gennych chi anfon fy mhleintyn i feithrinfa cyfnod sylfaen

Mae angen gwneud cais am le mewn ysgol feithrin mewn ysgol ar wahân, drwy wefan Derbyniadau Bro Morgannwg: [Derbyn i'r Ysgol Feithrin](#)

Dewisiadau Gofal Plant (parhad)

Rwy'n credu bod problem iechyd, ymddygiad neu ddatblygiad gan fy mhlentyn ac y gallai fod angen gofal neu gymorth ychwanegol arno:

Nac ydy



Rhowch wybod i ni os oes gan eich plentyn unrhyw anghenion ychwanegol gan y gallwn ariannu cymorth, hyfforddiant i staff neu offer arbenigol yn y ddarpariaeth gofal plant.

Darparwr Gofal Plant

Trefnwch eich gofal plant cyn gwneud
cais am y Cynnig Gofal Plant

Rhaid i ofal plant gofrestru
gydag AGC (neu Ofsted yn
Lloegr)

Darparwr Gofal Plant:

Acorns Action Pak

Os nad yw eich darparwr gofal plant ar y rhestr hon,
mae'n golygu nad yw eto wedi cofrestru ar gyfer y
Cynnig Gofal Plant gyda Bro Morgannwg.
Cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
ar **01446 704704**
a gallwn helpu eich darparwr gofal plant i gofrestru.

Faint o ddarparwyr gofal plant y gallaf eu defnyddio?

Rwyf am ychwanegu â Darparwr Gofal Plant ychwanegol:

Ydy

Gallwch ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant gyda dau ddarparwr gofal plant ar y tro. Ni chaiff yr oriau cyfunol ar gyfer y ddau ddarparwr fod yn fwy na 17.5 awr yr wythnos.

Gallwch ddefnyddio dau ddarparwr gofal plant gwahanol yn ystod gwyliau'r ysgol. Ni chaiff yr oriau cyfunol ar gyfer y ddau ddarparwr fod yn fwy na 30 awr yr wythnos.

Manylion y Rhiant/Gwarcheidwad – Rhiant 1

Diweddarau Manylion y rhiant/gwarchodwr 1

Enw(au) cyntaf:*

e.g. James

Cyfenw:*

e.g. Williams

Dyddiad geni:*

03/11/2000

Rhif Yswiriant Gwladol:*

e.g. AA 12 34 56 A

Cod post:*

e.g. NP206AD

Rhif/Enw Tŷ:*

Os yw rhieni wedi gwahanu,
dylai'r rhiant sy'n brif
warchodwr wneud cais

Os oes gan rieni sydd wedi gwahanu
warchodaeth gyfartal, rhaid iddyn nhw
benderfynu pa riant fydd yn gwneud
cais am y Cynnig Gofal Plant

Manylion y Rhiant/Gwarcheidwad – Rhiant 2

Rwyf am ychwanegu â rhiant/gofalwr ychwanegol:

Ydy

Os ydych yn deulu dau riant, ychwanegwch ail riant yma, ar waelod y dudalen. Bydd angen i'r ail riant hefyd fodloni'r meini prawf cymhwyster a chyflwyno tystiolaeth

Bydd angen ychwanegu'r oedolion canlynol yma hefyd a bydd angen iddynt fodloni'r meini prawf cymhwysedd:
gwŷr, gwragedd, neu bartneriaid hirdymor, partneriaid sy'n byw gyda'r rhiant sy'n brif warchodwr,
neu
wŷr, gwragedd, neu bartneriaid hirdymor, partneriaid sy'n byw gyda'r rhiant sy'n warchodwr cyfartal, sy'n gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant.

Dogfennau Ategol

Dogfennau Ategol

Disgrifiad Dewisol

Uwchlwytho (Mathau a Gynhelir: doc, docx, xls, xlsx, pdf, jpg, jpeg, gif, png)

Pori...

Uwchlwytho

Dogfennau Ategol

Dogfennau Ategol:

- Tystysgrif Geni'r Plentyn
- Ffurflen Talu Treth Cyngor Diweddaraf

Rhiant Un:

- Cyflogedig - Slipiau cyflog y tri mis diwethaf
- Hunangyflogedig - Copi o Ffurflen Dreth Hunanasesiad am y flwyddyn ariannol flaenoro

Rhiant Dau (os yn gymwys):

Gwnewch yn siŵr bod yr holl ddogfennau gofynnol yn cael eu lanlwytho. Os oes unrhyw beth ar goll, gallai hyn oedi prosesu eich cais.

Cymhwysedd rhiant: i gael rhagor o wybodaeth ewch i dudalennau 5, 6, 7

Nodiadau Ymgeisio

Nodiadau Cais:

Cadw

Defnyddiwch y blwch hwn i roi unrhyw fanylion neu esboniadau pellach os oes angen.

Cwestiynau Cyffredin: Gwyliau Ysgol

Yn ystod gwyliau'r ysgol, bydd cyllid y Cynnig Gofal Plant yn cynyddu i hyd at 30 awr yr wythnos, am dair wythnos y tymor.

Tymor yr Ysgol	Gwyliau'r Ysgol	Wythnosau a ariennir gan y Cynnig Gofal Plant
Tymor y Gwanwyn = Mis Ionawr - mis Mawrth/Ebrill (yn dibynnu ar ddyddiad y Pasg)	Hanner tymor mis Chwefror - 1 wythnos Pasg - pythefnos	3 wythnos x 30 awr yr wythnos
Tymor yr haf = Mis Ebrill - mis Awst	Hanner tymor mis Mai - 1 wythnos Gwyliau'r haf - 6 wythnos	3 wythnos x 30 awr yr wythnos
Tymor yr Hydref = Mis Medi - mis Rhagfyr	Hanner tymor mis Hydref - 1 wythnos Gwyliau'r Nadolig – pythefnos	3 wythnos x 30 awr yr wythnos

Bydd angen i chi dalu am unrhyw ofal plant arall mae arnoch ei angen.

Gallwch gyflwyno unrhyw wythnosau gwyliau llawn na gawsoch eu hariannu ar gyfer gwyliau yn y dyfodol.

Mae'n rhaid archebu'r oriau gwyliau hyn gyda'ch darparwr gofal plant ymlaen llaw

Cwestiynau Cyffredin: 2

A all fy narparwr gofal plant godi ffioedd ychwanegol arna i pan fydd fy mhlentyn yn derbyn y Cynnig Gofal Plant?

Gall, os mai eu polisi yw codi'r costau hyn ar bob rhiant. Gall eich darparwr gofal plant godi tâl arnoch am:

Fwyd - £2 y pryd bwyd, a 75c y byrbryd, hyd at £7.50 y dydd ar gyfer gofal dydd llawn, neu £4.75 am sesiynau hanner diwrnod Cludiant, e.e. codi a gollwng o'r ysgol

Gweithgareddau oddi ar y safle e.e. tripiâu

Blaendal/tâl ar gadw/tâl gwyliau gwarchodwyr plant

Os yw eich darparwr gofal plant yn codi cyfradd fesul hanner diwrnod neu ddiwrnod, ac nid yw eich oriau Cynnig Gofal Plant yn cwmpasu'r sesiynau hyn, efallai y codir tâl am yr oriau ychwanegol mae eu hangen arnoch.

Os yw eich darparwr gofal plant yn gofalu am eich plentyn **cyn ac ar ôl** sesiwn Meithrin y Cyfnod Sylfaen, gall ddefnyddio'ch oriau gofal plant a ariennir am yr amser y mae eich plentyn yn yr ysgol.

Gwiriwch y taliadau hyn cyn llofnodi contract gyda'ch darparwr gofal plant

Gaf i dalu am ofal plant ychwanegol?

Cewch Cewch dalu eich darparwr gofal plant am unrhyw ofal plant ychwanegol mae arnoch ei angen, nad yw'n cael ei ariannu gan y Cynnig Gofal Plant

Cwestiynau Cyffredin: 3

Beth os byddaf yn colli fy swydd?

Beth os yw fy enillion yn dod o dan y trothwy isaf?

Beth os oes gen i leoliad sy'n rhan o gwrs a dydw i ddim yn gweithio am ychydig wythnosau?

Mae Cyfnod Eithrio Dros Dro o 8 wythnos, sy'n dechrau o'r dyddiad y mae eich amgylchiadau'n newid. Gallwch barhau i ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant yn ystod yr 8 wythnos hyn. Mae angen i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Ydy myfyrwyr yn gymwys?

Nac ydyn, oni bai eich bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd eraill y Cynnig Gofal Plant.

I gael gwybodaeth am gymorth ariannol i fyfyrwyr, ewch i:

<https://www.studentfinancewales.co.uk/>

Cwestiynau Cyffredin: 4

A allaf ddefnyddio'r elfen gofal plant yng Nghredyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ar yr un pryd â'r Cynnig Gofal Plant?

A allaf ddefnyddio'r cynllun Gofal Plant di-dreth yr un pryd â'r Cynnig Gofal Plant?

Cewch!

Cewch ddefnyddio'r cynlluniau cymorth eraill hyn i helpu gyda ffioedd gofal plant ar gyfer gofal plant **ychwanegol nad** yw'r Cynnig Gofal Plant yn ei gwmpasu.

A allaf ddefnyddio cynlluniau talebau 'aberthu cyflog'/gofal plant yr un pryd â'r Cynnig Gofal Plant?

Cwestiynau Cyffredin: 5

A yw fy oriau gofal plant yn cynyddu os nad ydw i'n defnyddio fy oriau Meithrin Cyfnod Sylfaen?

Nid yw'r oriau gofal plant a ariennir yn cynyddu os nad ydych yn defnyddio eich lle ym meithrinfa'r Cyfnod Sylfaen.

Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi gymryd eich lle mewn meithrinfa yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn cael cyllid gofal plant.

Sut bydd y Cynnig Gofal Plant yn effeithio ar fy mudd-daliadau?

Dylai'r cynnig gofal plant leihau eich biliau gofal plant.

Oherwydd y byddwch yn talu llai am ofal plant, efallai y cewch lai o gyllid gofal plant drwy Gredyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol. Gall y gwefannau hyn eich helpu gyda'r cwestiwn hwn:

<https://www.gov.uk/childcare-costs-for-tax-credits>

<https://www.gov.uk/childcare-calculator>

Unrhyw gwestiynau?

- Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os oes angen help arnoch gyda'ch cais, cysylltwch â ni:
- Ffôn: 01446 704704
- E-bost: fis@valeofglamorgan.gov.uk
- Facebook: [facebook.com/VOGFIS](https://www.facebook.com/VOGFIS)
- Twitter: [@VALEFIS](https://twitter.com/VALEFIS)
- Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk/fis